**CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 13 Ionawr 2022 yn Capel MC Swyddffynnon.

**Yn bresennol / *Present*:** Mair Humphreys, David M. Jones, a Thomas Jones, Tomos Jones, Siarl Owen a Wyn Evans.

**Ymddiheurio / *Apologies*:** Sarah Jones.

Derbyniwyd cofnodion 24 Mehefin 2021 fel rhai cywir./ Minutes of meeting held 24 June 2021 were accepted as a correct record.

**Materion yn codi o gofnodion 24 Mehefin 2021**

1. **Cyflwr Heolydd** – adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw ohebiaeth pellach wedi ei dderbyn o'r Cyngor Sir am gyflwr yr heolydd. Yn anffodus, mae nifer o heolydd o fewn y sir sydd angen sylw brys, mae'r ffactorau dros yr arafwch yn ymwneud a blaenoriaethau, anghenion staffio ac yn bennaf oll cyllid. Adroddwyd bod yr heol tuag at Brynarth a Thrawsgoed wedi ei hadnewyddu yn ddiweddar, ac felly, cytunodd y Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r Cynghorydd Sirol, Ifan Davies am y sefyllfa.

**Gohebiaeth**

1. Llywodraeth Cymru – Taliadau S137 - £8.82 yr etholwr am y flwyddyn 2022-23.
2. Cyngor Sir Ceredigion – taliad Praesept 2021-2022 – taliad olaf £712.83.
3. Barcalys 29/11/2021 - £1,991,29; 29/10/2021 - £2,011.29; 29/09/2021 - £1,730.96; 27/08/21 - £1,715.74; 30/07/2021 - £1,772.74.
4. Cyngor Sir Ceredigion – Etholaidau Cynghorau Tref/Cymuned 2022 – derbyniwyd amlinelliad o'r broses enwebu, y ffioedd a'r costau gyda'r addewid o fwy o wybodaeth erbyn mis Mawrth 2022.
5. Praesept 2022/2023 – yn dilyn asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a'r gwaraint a ragwelir yn ystod y flwyddyn cytunwyd a'r braesept o £2,115.75.
6. Un Llais Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am grant y Loteri Genedlaethol tuag at ddathliadau'r Jiwbili Platinwm.
7. Caru Cymru – derbyniwyd posteri parthed baw cŵn a'r angen i berchnogion fod yn ymwybodol o'r peryglon iechyd sydd yn gysylltiedig â baw cŵn. Cytunwyd i osod y posteri ger mynedfa'r llwybr beicio.
8. Pwyllgor Ardal Ceredigion, 18 Ionawr 2022 trwy Zoom – cytunodd Mair Humphreys i fynychu'r cyfarfod.
9. Derbyniwyd ebost gan Claire McNamara yn cyflwyno ei hun fel Cysylltwr Cymunedol gyda'r Gwasanaeth Cefnogi a Datblygu Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion.
10. Derbyniwyd llythyr gan Ben Lake yn ein hysbysu o ganlyniad yr Arolwg BAncio Cymunedol a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae Ben wedi trefnu cyfres o gyfarfoydd efo HSBC, Nat West, Barclays a Lloyds i drafod y dirywiad a'r diffyg gwasanaeth yng nghefn gwlad.
11. Taliadau / Rhoddion – cytunwyd ar y canlynol:
    a. Wynnstay – (Mainc i'r Parc) - £332.50
    b. Eglwys Gwnnws £70.00
    c. Capel M.C. Swyddffynnon £70.00

d. Canolfan Edward Richard £70.00
e. Eisteddfod Swyddffynnon £100.00
f. M E Buchanan (gwair y Maes Chwarae) £60.00
g. Cyflog Clerc £850.00

12. Atgywieio'r meinciau – cytunwyd bod angen atgyweirio'r meinciau yn y tri pentref. Rhagwelir bod hyn yn mynd i gostio tua £75 y fainc. Cytunwyd bod y Cyng. D M Jones yn gwirio'r pris ac adrodd yn ol i'r Clerc.
13. Cytunodd y Cyng. Siarl Owen Tynddraenen i osod blodau wrth y gofgolofn, cytunodd y Clerc i hysbysu Siarl o pa fis oedd yn wag.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 yr hwyr.

**Matters from meeting held 24 June 2021**

1. **Road conditions** – the Clerk reported that no further correspondence had come to hand from the County Council with regards to road conditions. Unfortunately, there are numerous roads within the county that need urgent attention, factors leading to this is the need to prioritise, staffing issues and the general financial situation. It was reported that the road from Brynarth towards Trawscoed had been resurfaced lately, therefore, the Clerk agreed to peruse the matter further with the County Councillor Ifan Davies.

**Correspondence:**

1. Welsh Government S137 payments - £8.82 per elector for the year 2022-23.
2. Ceredigion County Council last precept payment for 2021-22 – £712.83.
3. Barclays 29/11/2021 - £1,991,29; 29/10/2021 - £2,011.29; 29/09/2021 - £1,730.96; 27/08/21 - £1,715.74; 30/07/2021 - £1,772.74.
4. Ceredigion County Council – Community and Town Council Elections 2022- a brief outline of the process and fees were received. Further information would be available by March 2022.
5. Precept 2022/2023 – following an assessment of our financial and spending situation it was agreed on a precept of £2,115.75.
6. One Voice Wales – information was received in relation to Lottery Grant towards the Platinum Jubilee celebrations.
7. Caru Cymru – posters were received re "bag it – bin it". It was agreed to place these posters on the entrance to the cycle track.
8. Ceredigion Ara Committee 18 January 2022 via Zoom – Mair Humphreys agreed to attend.
9. An email was received from Claire McNamara introducing herself as a Community Connector for the Community Support and Development Service.
10. A letter was received from Ben Lake informing us of the result of the Community Banking Survey that was held recently. He has arranged a series of meetings with HSBC, Nat Wales, Barclays and Lloyds to discuss the reduction and decline in banking services in rural communities.
11. Payments/ Donations – it was agreed on the following:
    a. Wynnstay – (Mainc i'r Parc) - £332.50
    b. Eglwys Gwnnws £70.00

c. Capel M.C. Swyddffynnon £70.00
d. Canolfan Edward Richard £70.00
e. Eisteddfod Swyddffynnon £100.00
f. M E Buchanan (gwair y Maes Chwarae) £60.00
g. Clerk £850.00

12. Benches – it was agreed that some of the community benches needed fixing. It is estimated that the cost of fixing a bench will be in the region of £75. Councillor D M Jones agreed to look for estimates and report back to the Clerk.
13. Councillor Siarl Owen, Tynddraenen agreed to place flowers on the monument, the Clerk agreed to inform him of which month.

The meeting ended at 8.00pm.